Cyfarfod Cyngor Cymuned Aberffraw yn Ystafell JOW, Neuadd y Pentref

Nos Fercher, Mehefin 17, 2026 am 7yh

Meeting of the Aberffraw Community Council to be held in the JOW Room, Aberffraw Village Hall, 7 pm Wednesday 17th of June 2026

1	**Presennol -** Bryan Owen, Chris Topps, Elwyn Evans, John Andrews, Douglas Fowlie, Ellie Smith, Rachel Jones, Vaughan Pritchard, Oliver Fowlie, Glenys Stallwood, Barry Owen, Cyng John Ifan Jones, Cyng Arfon Wyn **Ymddiheuriadau** - Richard Owen **Clerc -** Elen Jones	**In attendance -** Bryan Owen, Chris Topps, Elwyn Evans, John Andrews, Douglas Fowlie, Ellie Smith, Rachel Jones, Vaughan Pritchard, Oliver Fowlie, Glenys Stallwood, Barry Owen, Cllr John Ifan Jones, Cllr Arfon Wyn **Apologies** - Richard Owen **Clerk -** Elen Jones
2	**Datgan Diddordeb** Rachel Jones – Cwt Hêrs Bryan Owen – Ymgeisydd am y cae Elwyn Evans – Ymgeisydd am y cae	**Declaration of Interests** Rachel Jones - Cwt Hers Bryan Owen - Field Applicant Elwyn Evans - Field Applicant
3	**Cytuno ar cofnodion or Cyfarfod Ebrill 15, 2026** Cynigiodd ES fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir. Eiliwyd y cynnig gan RJ, a chytunwyd i'w cymeradwyo.	**Agree on the minutes of 15 April 2026** ES proposed that the minutes of the previous meeting were a true and accurate record. The proposal was seconded by RJ and approved by the Council.
4	**Materion yn codi**	**Matters arising**

4.1	**Neuadd y Pentref -** Hysbyswyd y Cyngor bod cais am grant o £5,000 wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo gan y Gronfa Hanfodol. Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) ar 8 Gorffennaf.	**Aberffraw Village Hall -** The Council was informed that a £5,000 grant application had been submitted and approved by the Essential Fund. The Annual General Meeting (AGM) will be
	Nodwyd bod yr arolwg cymunedol wedi'i ddosbarthu. Mae polisïau a chofnodion cyfarfodydd Neuadd y Pentref Aberffraw bellach ar gael ar y wefan. Nododd y Cadeirydd fod rhodd Cyngor Cymuned Aberffraw i Neuadd y Pentref wedi'i thalu. Mae'r rhodd hon yn cyfrannu tuag at gostau yswiriant sy'n darparu yswiriant ar gyfer y neuadd. Dyma'r rhodd flynyddol a roddir gan y Cyngor i'r Neuadd Bentref.	held on 8 July. It was noted that the community survey has been distributed. The policies and minutes of Aberffraw Village Hall are now available on the website. The Chair noted that the Aberffraw Community Council donation to the Village Hall had been paid. The donation contributes towards the insurance costs, which provide cover for the hall. This is the village hall's yearly donation.
4.2	**Maes Chwarae:** Dywedodd y Clerc fod dyfynbrisiau a chostau wedi'u derbyn ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu offer y maes chwarae, yn unol ag argymhellion adroddiad arolygu ROSPA. Bwriedir defnyddio'r cyllid grant, unwaith y bydd wedi'i dderbyn, i gyflawni'r gwaith atgyweirio ac adnewyddu. **Glanhau'r Maes Chwarae:** Dywedodd yr Is-gadeirydd (VP) fod Fferm Llangwyfan wedi cynnig benthyg peiriant golchi pwysedd (jet wash) yn garedig er mwyn glanhau'r maes chwarae. Bydd yr Is-gadeirydd yn trefnu'r gwaith glanhau gyda chymorth aelodau eraill ac yn hysbysu'r Cynghorwyr ymlaen	**Play Area:** The Clerk advised that quotations and costings have been obtained for the repair and replacement of play area equipment, in accordance with the recommendations contained within the ROSPA inspection report. The Council intends to undertake these repairs and replacements using the grant funding once it has been received. **Play Area Cleaning:** VP advised that Llangwyfan Farm has kindly offered the use of a jet washer to clean the play area. VP will coordinate the cleaning of the park with the assistance of other members and will notify councillors in advance of when the work is due to be carried out.

	llaw pryd y bydd y gwaith yn cael ei wneud.	
4.3	**Ei'n Hanes Ni** - Nodwyd bod y ffilmio ar gyfer *Ein Hanes Ni* wedi'i ohirio tan fis Gorffennaf.	**Ei'n Hanes Ni** -It was noted that filming for *Ein Hanes Ni* had been postponed until July.
4.4	**Arwydd Aberffraw** - Mae'r arwydd ar hyn o bryd yn y gweithdy gyda'r saer, ac mae Owen Meilir, artist lleol, wedi cwblhau paentio'r arwydd.	**Aberffraw Sign** - The sign is currently in the workshop with the joiner, and Owen Meilir, a local artist, has completed the painting of the sign.
4.5	**Tir -** Cynhaliwyd pleidlais gyfrinachol, a	**Fields -** A secret ballot was held, and five

	derbyniwyd pum cais ar gyfer y cae. Bu Brin Morris yn llwyddiannus. Bydd y Clerc yn hysbysu Brin Morris o'r canlyniad.	applicants were considered for the field. Brin Morris was successful. The Clerk will notify Brin Morris of the outcome.
4.6	**De-fib** - Mae'r diffibriliwr bellach wedi'i osod yn ei leoliad newydd y tu allan i'r Swyddfa Bost gan drydanwr lleol. Bydd yr hen focs diffibriliwr yn cael ei dynnu i lawr. Cyfrifoldeb y Cyngor yw gwirio'r diffibriliwr unwaith y mis a sicrhau bod y padiau o fewn eu dyddiad dod i ben.	**De-fib** -The defibrillator has now been installed in its new location outside the Post Office by a local electrician. The old defibrillator box will be removed. It is the responsibility of the Council to check the defibrillator once a month and ensure that the pads are within their expiry date.

4.7	**Mynwent** - Adroddodd GS fod Jan a Pete Owens wedi cwblhau catalog o'r fynwent, a'i fod ef yn cadw'r ffeil berthnasol. Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch yn ddiffuant am yr holl waith ac ymroddiad sydd wedi mynd i gyflawni hyn. Nododd y Cyngor fod nifer o arwynebau anwastad yn y fynwent. Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r Gwasanaethau Cymuned, gan ddefnyddio'r un cyswllt sydd wedi bod yn clirio'r chwyn yn yr hen fynwent yn ddiweddar, i holi a fyddent yn gallu ymgymryd â'r gwaith o unioni'r tir. Dywedodd y Clerc ei bod wedi trafod y mater hwn yn flaenorol gyda chontractwr torri gwair y Cyngor, ond nad oeddent yn gallu ymgymryd â'r math hwn o waith.	**Cemetery -** GS reported that Jan and Pete Owen have completed a catalogue of the cemetery, and that he has the relevant records. The Community Council would like to express its sincere thanks for all the hard work and dedication that has gone into completing this. The Council noted that there are several uneven surfaces within the cemetery. It was agreed that the Clerk should contact the Community Services team, using the same contact who has recently been carrying out weed clearance in the old cemetery, to enquire whether they could undertake the necessary levelling work. The Clerk advised that this matter had previously been raised with the Council's grass-cutting contractor; however, they were unable to undertake this type of work.
4.8	**Cwt Hers -** Trafodwyd yr Adroddiad Strwythurol, a chytunwyd i gael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith atgyweirio angenrheidiol yn unol â'r argymhellion a nodir yn Adroddiad Cadarn, i'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.	**Cwt Hers** -.The Structural Report was discussed, and it was agreed to obtain quotations for the required repairs in accordance with the recommendations outlined in the Cadarn Report, to be presented at the next meeting.
4.9	**Priffyrdd** - Llinellau Melyn - Tyddyn Traeth a Postiau Marcio du a Gwyn ger Treiddon	**Highways** - Yellow Lines - Tyddyn Traeth - Marker Post

5.0	**Rhaglen Balchder Bro Llywodraeth y DU** - Cytunwyd y byddai cais yn cael ei gyflwyno am gyllid tuag at yr ardal chwarae drwy gynllun cyllido Pride in Place. Awdurdodwyd y Clerc i gwblhau a dychwelyd y ffurflen gais erbyn 30 Mehefin.	**UK Government's Pride in Place initiative funding** - It was agreed that an application would be submitted for funding towards the play area through the Pride in Place funding scheme. The Clerk was authorised to complete and return the application form by 30 June

5.1	**Baw Ci -** Codwyd pryderon ynghylch baw cŵn ar y comin. Mae John Andrews wedi anfon e-bost at Bodorgan ynghylch y mater, gan fod y comin o fewn eu hardal gyfrifoldeb. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu â Bodorgan i godi'r mater.	**Dog Fowling** -Concerns were raised regarding dog fouling on the common. John Andrews has emailed Bodorgan regarding the matter, as the common is within their area of responsibility. The Clerk will also contact Bodorgan to raise the issue.
5.2	**Torri Gwair** - Cytunwyd y dylid, ar gyfer y flwyddyn nesaf, lunio amserlen ar gyfer y contractwr, yn nodi'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y gwaith, gan gynnwys pryd y disgwylir i'r llwybrau troed gael eu torri. Nodwyd bod y llwybr troed wedi cael ei dorri, a bod y fynwent a'r parc hefyd wedi cael eu torri ac yn edrych yn dda iawn	**Grasscutting** -It was agreed that, for next year, a timetable should be prepared for the contractor, outlining the expected schedule of works, including when footpaths are expected to be cut. It was noted that the footpath had been cut, and that the cemetery and park had also been cut and were looking very well
5.3	**Ymgysylltu Diwrnod y Cofio 2026 –** RAF y Fali - Yn dilyn gohebiaeth a dderbyniwyd gan RAF y Fali ynghylch Gwasanaeth y Sul y Cofio, nodwyd bod y Cyngor yn awyddus i sicrhau cynrychiolaeth yn y gwasanaeth. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon e-bost at Gareth Prydderch, Dirprwy MCO, yn gofyn iddo gysylltu â Chris Topps er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol.	**RAF Valley - Remembrance Day 2026 Engagement** - Following correspondence received from RAF Valley regarding the Remembrance Day Service, it was noted that the Council is keen to ensure that it is represented. It was agreed that the Clerk would email Gareth Prydderch, Deputy MCO, requesting that he contact Chris Topps to make the necessary arrangements.
5.4	**Hyfforddiant Un Llais Cymru** - Rhannodd y Clerc ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi sydd i ddod gyda Un Llais Cymru. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr gysylltu â'r Clerc pe baent yn dymuno mynychu unrhyw sesiynau hyfforddi ychwanegol.	**One Voice Wales Training** - The Clerk shared the upcoming training dates with the Council. Councillors were asked to contact the Clerk if they wished to attend any additional training sessions.
6.0	**Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Mon - Cynllunio - Dim gohebiaeth cynllunio.**	**Correspondence IACC - Planning - No planning correspondence.**

7.0	**Materion ariannol**	**Financial Matters**
8.0	**Archwiliad / Adroddiad Blynyddol** Hysbysodd y Clerc y Cyngor fod Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 wedi dod i law ac wedi'i ddosbarthu i'r holl Gynghorwyr. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw faterion o bryder nac unrhyw faterion oedd angen sylw'r Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ac i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2025/2026. Awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Clerc i lofnodi'r Ffurflen Flynyddol.	**Audit / Annual Report -** The Clerk informed the Council that the Internal Auditor's Report for the year ending 31 March 2026 had been received and circulated to all Councillors. The report contained no matters of concern or issues requiring the Council's attention. It was unanimously agreed to accept the Internal Auditor's Report and approve the Annual Return and the Annual Governance Statement for 2025/2026. The Chair and the Clerk were authorised to sign the Annual Return.
8.1	**Diweddariad cyllidol** Cyflwynodd y Clerc y crynodeb ariannol i'r Cyngor.	**Financial update** The Clerk presented the financial summary to the Council.

8.2	**Anfonebu** Cyflwynwyd y taliadau canlynol i'w cymeradwyo: ● Owen Meilir – Paentio arwydd Aberffraw: **£300.00** ● Alun Foulkes – Ffi'r Archwilydd Mewnol: **£150.00** Cymeradwywyd y taliadau uchod yn unfrydol i'w talu.	**Invoices** The following payments were presented for approval: ● Owen Meilir – Painting of the Aberffraw sign: **£300.00** ● Alun Foulkes – Internal Auditor's fee: **£150.00** The above payments were unanimously approved for payment
8.3 9.0	**Cyflog:** £340.10 HMRC:£85.00 Cymeradwywyd y taliadau uchod yn unfrydol i'w talu. Nodwyd hefyd, oherwydd na chynhaliwyd cyfarfod ym mis Mai 2026, bod taliadau wedi'u hawdurdodi drwy e-bost ar gyfer yr anfonebau canlynol: ● Swyddfa Archwilio Cymru x6 – Anfonebau Archwilio heb eu talu ● Bodorgan Properties ● Cadarn Consulting ● Cyflog y Clerc a CThEM Cymeradwywyd y taliadau uchod yn unfrydol. **Diweddariad Cynghorwyr Sir**	**Wages:** £340.10 HMRC:£85.00 It was also noted that due to no meeting in May 2026, payment were authorised via email for the below invoices: ● Wales Audit Office x6 Invoice for outstanding Audit Invoices ● Bodorgan Properties ● Cadarn Consulting ● Clerk Salary & HMRC The above payments were unanimously approved for payment. **County Councillors Update**
10.0	**Materion ar gyfer cyfarfod nesaf**	**Matters for the next meeting**

11.0	**Dyddiad cyfarfod nesaf 15/07/26**	**Date of next meeting 15/07/26**

AGM

3	**Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor 2026-27** Cytunwyd yn unfrydol i benodi Bryan Owen yn Gadeirydd ac Ellie Smith yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn i ddod. Derbyniodd y ddau yr enwebiadau a chadarnhau eu bod yn fodlon ymgymryd â'r rolau.	**Elect Chair and Vice Chair 2026-27** It was unanimously agreed to appoint Bryan Owen as Chair and Ellie Smith as Vice Chair for the forthcoming year. Both accepted their appointments and confirmed their willingness to undertake the roles.
4.	**Llofnod gan Gadeirydd ac Is Gadeirytdd y Cyngor ei bod yn derbyn y swydd**	**Signature by the Chair and Vice-Chair of the Council that they accept the position**
5.	**Penodi Cynrychiolwyr ar gyfer y pwyllgorau allanol a ganlyn ac adolygu adrodd yn ôl.**	**Appoint Representatives for the following external committees and review the report back**
5.1	**Un Llais Cymru -** Clerk	**One Voice Wales** - Clerk
5.2	**Pencampwr yr Iaith Gymraeg**	**Champion of the Welsh Language.**
5.3	**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned** - Bryan Owen	**Town and Community Councils Liaison Forum** - Bryan Owen
5.4	**Trac Mon** - John Andrews / Chris Topps	**Anglesey Circuit** - John Andrews / Chris Topps
5.5	**Pwyllgor Rheoli Neuadd Y Pentref, Aberffraw** - Ellie Smith, Chris Topps a Barry Owen	**Management Committee Aberffraw Village Hall** - Ellie Smith, Chris Topps and Barry Owen
5.6	**Cynghrair Bro Aberffraw -** Ellie Smith	**Bro Aberffraw Alliance -** Ellie Smith

5.7	**Cais Llywodraethwyr Ysgol - Rhosneigr a Pencarnisiog**- Ellie Smith and Rachel Jones	**School Governors' Request - Rhosneigr and Pencarnisiog** - Ellie Smith and Rachel Jones
6.	**Penodi cynrychiolwyr ar gyfer y canlynol ac adolygu adrodd yn ôl**	**Appoint representatives for the following and review the report back**
6.1	**Mynwent** - Bryan Owen	**Cemetery** - Bryan Owen
6.2	**Cae Chwarae ac ardal Picnic** - Rachel Jones	**Playfield and picnic area** - Rachel Jones
6.3	**Llwybrau Troed** - John Andrews	**Footpaths** - John Andrews
6.4	**Gofadail** - Chris Tops	**Memorial Cenotaph -** Chris Tops
6.5	L**lyn Coron-** Elwyn Evans	**Lake** - Elwyn Evans
6.6	**Arwyddion Pentref a Goleuadau Stryd** - All councillros	**Village Signs and Street Lighting -** All councillros
6.7	**Cynllunio** - All Councillors	**Planning** - All Councillors

6.8	**Arosfan Bws, meinciau ac Arwydd Pentref** - All Councillors	**Bus Stop, Benches, and Village Sign**- All Councillors
6.9	**Gwefan** - Clerc	**Website** - Clerk
6.10	**Caeau** - Elwyn Evans	**Fields** Elwyn Evans
	Clwb Peldroed Aberffraw - Barry Owen	**Aberffraw Football Club -** Barry Owen
6.11	**Cyllid Rheolaeth Fewnol** - Holl gynhorwyr	**Internal Control Finance** - All councillors
6.12	**Digwyddiadau** - Holl gynhorwyr	**Events** - All councillors

6.13 6.14	**Seddi Gwag**- Cyflwynodd Glenys Stallwood ei hymddiswyddiad yn ystod y cyfarfod. Cytunwyd y bydd y Clerc yn cysylltu ag Adran Etholiadau Cyngor Sir Ynys Môn i'w hysbysu o'r ymddiswyddiad. **Rhoddion** Cytunwyd yn unfrydol y byddai rhoddion Cyngor Cymuned Aberffraw eleni yn cael eu	**Vacant Seat -** Glenys Stallwood tendered her resignation during the meeting. It was agreed that the Clerk would notify the Elections Department at the Isle of Anglesey County Council of her resignation. **Donations** It was unanimously agreed that Aberffraw Community Council's donations for this year

	rhannu'n gyfartal rhwng y tri sefydliad canlynol: ● Glorian ● Clwb Pêl-droed Aberffraw ● The Royal Welsh	would be shared equally between the following three organisations: ● Glorian ● Aberffraw Football Club ● The Royal Welsh
7	**Adolygu a mabwysiadu Dogfennau Statudol Cynllun Hyfforddi Cyllid, Rheolaeth a Rheoli Risg:** Yn ystod y cyfarfod, adolygodd a mabwysiadodd yr holl gynghorwyr ddogfennau statudol y Cyngor, gan gynnwys y Cynllun Hyfforddi, y Polisi Cyllid, Llywodraethu a Rheoli Risg, y Cynllun Bioamrywiaeth, a'r Rheolau Sefydlog.	**Review and adopt the Statutory Documents:** During the meeting, all councillors reviewed and adopted the Council's statutory documents, including the Training Plan, Finance, Governance and Risk Policy, Biodiversity Plan, and Standing Orders.
8	**Amser a lleoliad cyfarfodydd arferol y cyngor hyd ar a gan gynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.** Cytunwyd y cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn Ystafell J.O.W. ar drydydd dydd Mercher pob mis am 7.00pm. Cytunwyd hefyd y cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nesaf ym mis Mai 2027.	**The time and location of the Council's regular meetings up to and including the next Annual Council meeting.** It was agreed that Council meetings would be held in the J.O.W. Room on the third Wednesday of each month at 7.00 pm. It was also agreed that the next Annual Meeting would be held in May 2027.